



LEFEL 3 DIPLOMA

4463N60-1A



Z22-4463N60-1A

MEHEFIN 2022

GWYDDOR FEDDYGOL UNED 6 (Cyflyrau Meddygol)

I'w defnyddio gydag arholiad
Uned 6 Astudiaeth Achos Feddygol

**Erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w defnyddio yn yr
arholiad canlynol ar Ddydd Mawrth, 7 Mehefin 2022**

Lefel 3 Diploma mewn Gwyddor Feddygol

Ffibrosis cystig

Mae ffibrosis cystig yn anhwylder etifeddol sy'n achosi i fwcws gludiog gronni (*build up*) yn yr ysgyfaint a'r system dreulio. Mae'n effeithio un o bob 3000 o fabanod newydd-anedig (*newborns*) yn y DU (*UK*).

Symptomau ffibrosis cystig

Mae mwcws gludiog yn cronni yn yr ysgyfaint gan achosi problemau anadlu a chynyddu'r risg o heintiau ar yr ysgyfaint. Mae mwcws hefyd yn llenwi'r pancreas, sy'n ei atal rhag rhyddhau ensymau treulio. Mae'r symptomau mwyaf cyffredin mewn claf sydd â ffibrosis cystig yn cynnwys:

- heintiau rheolaidd (*recurring infections*) ar y frest
- twf araf a rhoi pwysau ymlaen yn araf

Beth sy'n achosi ffibrosis cystig

Mae ffibrosis cystig yn gyflwr genynnol. Mae'n cael ei achosi gan enyn diffygiol (y genyn CFTR) sy'n effeithio ar brotein pilen sy'n rheoli symudiad halen a dŵr i mewn ac allan o gelloedd. Mae'n cael ei ddisgrifio fel clefyd etifeddol enciliol, ac mae tua un o bob 25 o bobl yn gludyddion (*carriers*) o'r alel enciliol.

Rhoi diagnosis o ffibrosis cystig

Yn y DU, mae pob baban newydd-anedig yn cael ei sgrinio am ffibrosis cystig fel rhan o'r prawf smotyn gwaed newydd-anedig (prawf pricio sawdl) sy'n cael ei gynnal yn fuan ar ôl i'r baban gael ei eni. Os yw'r prawf sgrinio'n awgrymu y gallai fod ffibrosis cystig ar blentyn, bydd angen cynnal y profion ychwanegol canlynol i gadarnhau bod y cyflwr ar y plentyn:

- prawf chwys – gan ddefnyddio pilocarpin i fesur crynodiad y clorid yn y chwys
- prawf genynnol – archwilio'r DNA i chwilio am y genyn diffygiol

Triniaethau ar gyfer ffibrosis cystig

Mae triniaethau'n gallu cynnwys defnyddio ffisiotherapi, er mwyn helpu i glirio mwcws o'r ysgyfaint. Bydd cyngor deietegol i'r claf yn helpu i osgoi camfaethiad (*malnutrition*).

Gallai fod angen i bobl â ffibrosis cystig gymryd meddyginiaethau gwahanol, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r cyflwr. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- gwrthfotigau i atal a thrin heintiau ar y frest
- cyffuriau arbenigol fel Dornase alfa sy'n cael ei fewnanadlu drwy nebiwlydd (*nebuliser*), ac Ivacaftor sy'n cael ei gymryd fel tabled
- broncoledwyr (*bronchodilators*)
- cyffuriau sy'n cael eu defnyddio i helpu â threuliad

Byw gyda ffibrosis cystig

Mae ffibrosis cystig yn gwaethygu dros amser ac mae'n gallu achosi marwolaeth os yw'n arwain at haint difrifol neu os yw'n atal yr ysgyfaint rhag gweithio'n iawn. Mewn achosion difrifol, efallai bydd trawsblaniad ysgyfaint yn cael ei argymhell. Erbyn hyn, mae pobl sydd â ffibrosis cystig yn byw'n hirach oherwydd datblygiadau (*advancements*) mewn triniaethau. Mae cefnogaeth ar gael i helpu pobl sydd â ffibrosis cystig i fyw mor annibynnol â phosibl a chael yr ansawdd bywyd gorau posibl.

Colli clyw

Mae colli clyw (*hearing loss*) yn gallu digwydd ar unrhyw oed, yn enwedig ar ôl profi cyfnodau o sŵn uchel.

Symptomau colli clyw

Mae symptomau cyffredin yn cynnwys:

- anhawster i glywed sain ar amleddau penodol
- gofyn i bobl ailadrodd pethau
- gwrandao ar gerddoriaeth neu wyllo'r teledu yn uchel
- gorfod canolbwyntio'n galed i glywed beth mae pobl eraill yn ei ddweud

Beth sy'n achosi colli clyw

Mae llawer o bethau gwahanol yn gallu achosi colli clyw. Y mwyaf cyffredin yw colli clyw yn raddol yn y ddwy glust, sydd fel arfer yn cael ei achosi gan heneiddio neu brofi synau uchel dros lawer o flynyddoedd. Mae colli clyw fel hyn yn digwydd oherwydd bod y niwronau synhwyraidd yn y cochlea, sy'n ymateb i wahanol amleddau sain ar wahanol osgledau, yn dirywio.

Pan fydd colli clyw yn digwydd yn sydyn, gall hyn fod oherwydd gormod o gwyr (*wax*) yn y clustiau, haint bacteriol neu haint firol yn y glust, neu dwll ym mhilen y glust (*perforated eardrum*).

Rhoi diagnosis o golli clyw

Bydd meddyg teulu'n gofyn am y symptomau ac yn edrych y tu mewn i'r clustiau. Gall wneud profion clyw syml. Gall y meddyg teulu hefyd atgyfeirio (*refer*) cleifion i glinig cleifion allanol mewn ysbyty i gael prawf clyw. Mae profion clyw cyffredin yn cynnwys:

- otosgopi
- awdiometreg tôn bur (*pure tone audiometry*)
- tympanometreg

Triniaethau ar gyfer colli clyw

Fel arfer, mae triniaethau'n cynnwys defnyddio:

- teclynnau clywed (*hearing aids*)
- mewnbhaniadau (*implants*)
- corticosteroidau

Atal colli clyw

Mae amddiffyn y clustiau rhag sŵn uchel yn helpu i leihau'r risg o golli clyw.

Clwy'r pennau (*mumps*)

Haint firol cyffwrdd-ymledol (*contagious*) yw clwy'r pennau. Roedd yn arfer bod yn gyffredin mewn plant cyn i'r brechlyn MMR gael ei gyflwyno.

Yn yr 1990au, roedd rhai pobl yn honni bod cysylltiad rhwng y brechlyn MMR a chyfraddau uwch o awtistiaeth a cholitis. Dydy'r honiadau hyn ddim yn wir, ac fe gawson nhw eu tynnu'n ôl yn 2010. Mae effeithiau'r honiadau hyn i'w gweld o hyd, ac maen nhw wedi arwain at ostyngiad mewn cyfraddau brechu yn y DU ac mewn gwledydd eraill. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o glwy'r pennau a'r frech goch, yn enwedig ymhlith grwpiau o bobl sydd wedi dewis peidio bod yn rhan o raglenni brechu.

Symptomau clwy'r pennau

Fel arfer, mae symptomau clwy'r pennau'n datblygu 14 i 25 diwrnod ar ôl i rywun gael ei heintio. Mae'r symptomau arferol yn cynnwys:

- y chwarennau poer yn chwyddo
- poen, tynerwch (*tenderness*) ac anhawster i lyncu
- rhannau eraill o'r corff yn chwyddo, fel yr ymennydd, y pancreas, y ceilliau a'r ofarïau

Rhoi diagnosis o glwy'r pennau

Os yw clwy'r pennau wedi'i amau, mae'n rhaid i feddyg teulu roi diagnosis. Bydd yn cymryd swab poer ac yn ei anfon i labordy i gadarnhau'r diagnosis. Mae'n glefyd hysbysadwy (*notifiable disease*) ac mae'r adrannau iechyd cyhoeddus perthnasol yn cadw cofnodion.

Triniaethau ar gyfer clwy'r pennau

Mae'r driniaeth ar gyfer clwy'r pennau'n canolbwyntio ar leddfu (*relieving*) y symptomau nes bod y system imiwnedd yn llwyddo i drechu'r haint. Mae'r haint fel arfer yn gwella o fewn wythnos neu ddwy. Mae wedi'i argymhell y dylai cleifion sydd â chlwy'r pennau wneud y canlynol:

- gorffwys
- cymryd cyffuriau lleddfu poen dros-y-cownter fel parasetamol ac asbirin (fodd bynnag, ni ddylai asbirin gael ei roi i blant gan ei fod yn cynyddu'r risg o syndrom Reye)
- yfed digon o hylif
- rhoi clwt gwasgu (*compress*) cynnes neu oer ar chwarennau sydd wedi chwyddo er mwyn helpu i leihau'r boen
- bwyta bwydydd meddal sydd ddim yn golygu llawer o waith cnoi

Atal clwy'r pennau

Mae'r brechlyn MMR yn amddiffyn rhag clwy'r pennau, ac mae'n rhan o drefn reolaidd y GIG ar gyfer imiwneddio plant.